# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DDYDD MERCHER 6 EBRILL 2016 AM 4.00PM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D W W Thomas (Chair) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** |
|---|---|---|
| C R Doyle | C R Evans | R V Smith |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nick Williams | Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Dysgu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorydd/wyr: J P Curtice, C Thomas and L V Walton

26 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

27 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2016 yn gofnod cywir.

28 **TRAFODAETH GYDA CARYN MORGAN (CYDLYNYDD NEET), COLEG GŴYR ABERTAWE.**

Croesawodd y Cadeirydd Caryn Morgan (Cydlynydd NEET) o Goleg Gŵyr Abertawe i'r cyfarfod ac amlinellodd ddau bwnc yr oedd y PCC yn eu hadolygu, sef NEET ac addasrwydd pobl ifanc i gyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Rhoddodd Caryn Morgan, Cydlynydd NEET Coleg Gŵyr Abertawe, drosolwg o'i gyrfa 22 o flynyddoedd yng Ngholeg Gŵyr gan fanylu ar ei rôl bresennol.

Nododd fod pobl ifanc yn gadael yr ysgol ac yn cofrestru ar sawl cwrs gwahanol heb unrhyw syniad beth maent am ei wneud yn y dyfodol. Roedd y prif resymau pam mae pobl ifanc yn gadael eu cyrsiau o ganlyniad i ddewis y cwrs anghywir a diffyg cefnogaeth/arweiniad rhiant. Roedd y rhesymau eraill yn rhai cymdeithasol a oedd yn cynnwys digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, dyletswyddau gofalu, problemau ariannol a derbyn gofal. Nodwyd nad oes gan y rhesymau dros adael cyrsiau unrhyw beth i'w wneud â'r hyn y mae ysgolion yn ei wneud/nad ydynt yn ei wneud ond mai'r materion 'allanol' niferus hyn, fel y nodwyd, sy'n gyfrifol gan arwain at bobl ifanc NEET.

Amlinellodd ei rôl fel un o'r 5 Swyddog Cefnogi Myfyrwyr (SCM) sy'n cysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc a nodir fel rhai risg uchel. Mae'r SCM yn gweithio'n

agos gyda chydweithwyr yn y coleg ac mewn sefydliadau allanol, gan gynnwys Gyrfa Cymru. Eu rôl yw monitro presenoldeb, ymddygiad a chyflawniad pobl ifanc.

Manylodd ar y broses a ddefnyddir i nodi pobl ifanc fel rhai risg uchel a manteision data VAP (a dderbynnir fel arfer erbyn diwedd mis Ebrill gan gwmpasu ystod oedran 11 i 16 oed) ar gyfer yr holl bobl ifanc yn ysgolion Abertawe sy'n gwneud cais i'r coleg. Mae'r coleg ond yn derbyn yr wybodaeth VAP ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd wedi gwneud cais ar yr adeg pan gyhoeddir y VAP. Am ryw reswm, nid yw'r coleg yn cael y data VAP ar gyfer unrhyw ddisgyblion mewn ysgolion 11-18 oed.

Rhoddodd fanylion y cyrsiau peilot a gyflwynwyd y llynedd yn benodol ar gyfer dysgwyr ifanc oedd wedi gadael eu cyrsiau. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglen ragflas hyblyg a oedd yn cyflwyno pobl ifanc i arlwyo, busnes, celf, TG, rhifedd, llythrennedd a pharatoi pobl ifanc ar gyfer cyfweliadau. Nodwyd bod 13 o ddysgwyr wedi dechrau'r rhaglen yn hanner tymor yr hydref, cwblhaodd 9 ohonynt y cymhwyster llawn ac roedd 3 wedi symud i ddarparwyr eraill. Roedd y coleg wedi bod yn llwyddiannus wrth gadw'r bobl ifanc hyn yn y coleg ac, o ganlyniad i'w lwyddiant, estynnwyd y peilot i eleni hefyd.

Nodwyd bod presenoldeb yn broblem fawr. Caiff llythyrau ynghylch diffyg presenoldeb eu hanfon at y rhieni/gofalwyr fel arfer a chysylltir ag unrhyw asiantaeth allanol sy'n cefnogi'r person ifanc hefyd.

Roedd materion allweddol a oedd yn codi o'r cyflwyniad yn cynnwys:

- Nid oedd unrhyw ysgol unigol yn berchen ar yr wybodaeth VAP ac roedd yn amlwg fod angen ymdrin â'r wybodaeth ag ymagwedd 'Abertawe gyfan';
- Nid yw data VAP ar gael ar gyfer y rheiny sy'n cyflwyno ceisiadau hwyr i'r coleg;
- Mae cefnogaeth bob amser ar gael i bobl ifanc wneud cais am gyrsiau rhagflas er ni chyhoeddir y cyrsiau hyn yn y prosbectws. Targedir dysgwyr penodol gan ddefnyddio data a ddarperir gan Gyrfa Cymru neu o rai sydd wedi tynnu'n ôl o'r coleg;
- Nodwyd y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi fel cyfnod lle gallai pobl ifanc ddatblygu arferion gwael. Fodd bynnag, gallai cyflwyno rhaglenni rhagflas a rennir yn 3 thymor deg wythnos fod yn fanteisiol;
- Mae angen canolbwyntio ar gryfderau a gwendidau pobl ifanc a darparu cefnogaeth unigol wedi'i theilwra;
- Mae presenoldeb yn allweddol i lwyddiant;
- Y prif bryder yw nifer y bobl ifanc sydd â sgiliau llythrennedd gwael ac mae angen mynd i'r afael â'r broblem hon ar frys;
- Mae angen rhoi sylw i gyngor gyrfaoedd mewn ysgolion. Dim ond y disgyblion risg uchel hynny y gall ymgynghorwyr gyrfaoedd eu targedu sy'n gadael llawer o ddisgyblion heb gyngor sy'n gallu effeithio ar eu dewisiadau Ôl-16;
- Nid oes unrhyw ofynion mynediad ar gyfer cyrsiau rhagflas;

- Cynhelir ymweliadau pontio â'r coleg drwy'r flwyddyn academaidd ac roeddent yn fuddiol ar gyfer chwalu'r rhwystrau i bobl ifanc, y mae'r syniad o fynd i'r coleg yn codi ofn arnynt;
- Mae'r coleg wedi datblygu cysylltiadau gwych ag ysgolion lleol a darpariaeth EOTAS yn Abertawe.
- Cynhelir opsiynau Ôl-16 i garfanau o ddisgyblion Blwyddyn 11, a Blwyddyn 10 weithiau, mewn ysgolion ac ym Mrondeg, Canolfan Addysg Camu Ymlaen;
- Ni hysbysebir y cyrsiau rhagflas ym mhrosbectws y coleg. Mae'r coleg yn cynnal Dyddiau Rhagflas i bob ysgol leol gymryd rhan ynddynt. Ni hysbysebir y rhaglen bontio yn y prosbectws oherwydd ei bod hi'n debyg y byddai'n denu mwy o fyfyrwyr y mae'n bosib y byddant yn fwy addas i gyrsiau eraill ac y byddant yn gweld y cwrs hwn fel dewis hawdd;
- Mae gwybodaeth am y rhaglen bontio wedi cael ei dosbarthu i'r holl ysgolion ac ymgynghorwyr gyrfaoedd â'r nod o dargedu'r disgyblion hynny nad ydynt wedi penderfynu ar opsiynau Ôl-16;
- Darperir cyfarpar gan y coleg i bobl ifanc sydd am gymryd rhan mewn cyrsiau rhagflas;
- Mae rhai pobl ifanc yn derbyn talebau cinio dyddiol a chânt eu hannog i fynd ar wibdeithiau a drefnir;
- Mae gan ysgolion cynradd lawer iawn o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol;
- Mae angen edrych ar arfer gorau mewn perthynas â threfniadau pontio o'r cynradd i'r uwchradd ac o'r uwchradd i addysg bellach;
- Byddai'n fuddiol archwilio'r sefydliadau addysgol eraill ar draws Abertawe (e.e. Pathways) ar gyfer arfer gorau a chysondeb.

Diolchodd y Cadeirydd i Caryn Morgan am ei chyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD:**

1. Y dylid nodi'r adroddiad;
2. Y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi Dysgu ymchwilio i'r broses sydd gan ysgolion i glustnodi sgorau VAP a throsglwyddo'r wybodaeth hon i golegau;
3. Y dylai'r Cadeirydd drefnu ymweliad â Pathways o fewn y pythefnos nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.24 pm

**CADEIRYDD**